



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cynulleidfa

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; prifysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru; dysgwyr a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau; sefydliadau sy'n cynrychioli sefydliadau addysgol yng Nghymru; adrannau Llywodraeth Cymru; sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr; cwmnïau yn y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r maes.

Trosolwg

Ym mis Awst 2016 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i wneud argymhellion ar y ffordd ymlaen. Byddai'r adolygiad yn llywio penderfyniadau polisi a chyllido ynghylch y Coleg i'r dyfodol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: Cymraeg@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru

Dogfennau cysylltiedig

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017) *Strategaeth y Gymraeg*



Cynnwys

Crynodeb gweithredol
Ymateb i'r argymhellion

2

3

Crynodeb gweithredol

Ym mis Awst 2016 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai'n sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i roi argymhellion ar y ffordd ymlaen. Byddai'r adolygiad yn llywio penderfyniadau polisi a chyllido ynglŷn â'r Coleg i'r dyfodol.

Fel rhan o gylch gorchwyl y grŵp, archwiliwyd y posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach, mewn ymateb i ymrwymiad yn rhaglen 5 mlynedd Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen. Ar 25 Gorffennaf 2017, cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol *Adolygiad o Weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol* oedd yn cynnwys 25 o argymhellion i'w hystyried gan Llywodraeth Cymru a'r Coleg.

Isod mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad.

Ymateb i'r argymhellion

	Argymhelliad	Ymateb	Cyfrifoldeb	Camau gweithredu
1	Dylai'r Llywodraeth ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.	Derbyn	Llywodraeth Cymru	<p>Mae'r argymhelliad yma yn cael ei dderbyn.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylid ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i gynnwys y sector ôl-16, tra'n cydnabod bod angen ymgymryd â chynllunio a gwaith pellach cyn y bydd gweithgareddau'r Coleg mewn addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith yn cyfateb i'w weithgareddau yn y sector addysg uwch.</p>
2	<p>Wrth i gyfrifoldebau'r Coleg ymestyn i'r sector ôl-16, dylai'r Coleg newid cyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr er mwyn adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd, gan sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod unrhyw newid yng nghyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd; • bod gan aelodaeth y Bwrdd lefel uchel o arbenigedd o'r sectorau addysg uwch, addysg bellach, a dysgu seiliedig ar waith, ynghyd â phrofiad cyfoes a dwfn ohonynt; • bod aelodaeth y Bwrdd yn gytbwys ar draws y sectorau; 	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	<p>Mae Llywodraeth Cymru a'r Coleg yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> <p>Roedd adolygiad mewnol o lywodraethiant y Coleg eisoes wedi'i ddechrau ond fe'i gohiriwyd tan y cyhoeddwyd adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl. Bydd y Coleg yn symud ymlaen gyda newid cyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unol â'r argymhellion.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • bod gan rai o aelodau'r Bwrdd brofiad a gwybodaeth o anghenion y byd gwaith; • nad yw aelodaeth y Bwrdd yn fwy nag y mae ar hyn o bryd, a; • bod y dull o benodi aelodau i'r Bwrdd yn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau. 			
3	Dylai'r Coleg ystyried symleiddio llywodraethiant yn gyffredinol i'w wneud mor dryloyw â phosib. Dylid ystyried nifer y pwyllgorau a grwpiau sydd yn cyfrannu at lywodraethiant y Coleg, eu strwythur a'u haelodaeth, ar sail effeithiolrwydd a thryloywder.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Mae'r Coleg yn derbyn yr argymhelliad a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gweithgareddau a amlinellir yn adran 2.
4	Dylai'r Coleg ystyried a oes lle i leihau biwrocratiaeth a phrosesau mewnol, yn enwedig ar yr ochr fonitro, heb amharu ar effeithiolrwydd y gweithgareddau.	Derbyn mewn egwyddor	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Fel rhan o'i weithgareddau, bydd y Coleg yn ystyried ei gyfrifoldebau yn llawn wrth ymdrin â chyllideb gyhoeddus a bydd yn sicrhau bod prosesau a gweithgareddau yn briodol ac yn gymesur.
5	I'r graddau y bydd angen ailgyfeirio adnoddau'r Coleg yn y cyfnod nesaf, dylai'r Coleg ganolbwyntio ar ddiogelu a datblygu'r gweithgareddau hynny sydd yn fwyaf hanfodol i gyflawni Strategaeth y Gymraeg	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Mae Llywodraeth Cymru a'r Coleg yn derbyn yr argymhelliad hwn. Fel rhan o'r cytundeb ariannu gyda'r Coleg, bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gweithgareddau a fydd yn cael y dylanwad

	Llywodraeth Cymru.			mwyaf wrth gyflawni amcanion strategaeth <i>Cymraeg 2050</i> .
6	<p>Dylai'r Coleg ganolbwyntio ei negeseuon marchnata ar hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, yn hytrach na marchnata'r Coleg fel corff ar wahân. Wrth wneud hyn dylai'r Coleg:</p> <ul style="list-style-type: none"> ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion trwy ddatblygu deunyddiau marchnata at ddefnydd athrawon, disgyblion a rhieni; cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg; ailgyfeirio ei waith hyrwyddo i gyrraedd disgyblion iau, hynny yw disgyblion blwyddyn 9 a 10, cyn iddynt ddechrau gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg ôl-16, a; cydlynu ei waith marchnata yn agos ag adrannau marchnata'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach unigol er mwyn sicrhau y trosglwyddir negeseuon clir a chyson i ddisgyblion ysgol ynglŷn â gwerth y Gymraeg. 	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	<p>Er mwyn cyflawni amcanion <i>Cymraeg 2050</i> a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16, mae angen i ddysgwyr ddeall manteision meddu ar sgiliau Cymraeg a'r budd a geir o addysg cyfrwng Cymraeg wrth gynnal y sgiliau hyn.</p> <p>Bydd y Coleg yn cydweithio â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu a chyflwyno dulliau marchnata i hyrwyddo'r Gymraeg a sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle. Byddwn hefyd yn cydweithio i ymchwilio a datblygu negeseuon clir i bobl ifanc ynglŷn â'r Gymraeg.</p> <p>Yn yr ysgolion, bydd y Coleg yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg a manteision sgiliau Cymraeg i bobl ifanc.</p>
7	Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Coleg, roi mwy o bwysau ar ysgolion ac	Derbyn mewn egwyddor	Llywodraeth Cymru	Bydd Llywodraeth Cymru gyda chymorth y Coleg yn ystyried sut all awdurdodau lleol,

	awdurdodau lleol i gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg trwy gyfathrebu negeseuon clir a chyson ynglŷn â gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle a phwysigrwydd dilyniant i addysg uwch ac addysg ôl-16.			trwy eu perthynas â'u hysgolion, gyfrannu ymhellach at ddilyniant ieithyddol addysgol y dysgwyr ynghyd â datblygiad eu sgiliau ieithyddol ar gyfer y byd gwaith. Bydd angen ystyried cyfraniad y Coleg wrth i awdurdodau lleol ymgymryd ag amcanion eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
8	<p>Dylai'r Coleg addasu'r cynllun ysgoloriaethau drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystyried diddymu'r Brif Ysgoloriaeth ar sail gwerth am arian oherwydd y tebygrwydd nad oes angen cymhelliant ariannol ar fyfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg; • canolbwyntio ar ddatblygu'r cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant/Hyblyg er mwyn targedu'n fwy effeithiol y myfyrwyr hynny na fyddai'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg heb gymhelliant ariannol, a; • sicrhau ysgoloriaethau ar gyfer pynciau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a'r economi yn unol â pholisi iaith Llywodraeth Cymru. 	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	<p>Bydd y Coleg yn adolygu'r cynllun ysgoloriaethau gyda'r nod o weithredu newidiadau yn y flwyddyn academaidd 2019-20.</p> <p>Ystyrir a all cyllideb y cynllun ysgoloriaethau a ddyrennir ar hyn o bryd, gyflawni canlyniadau gwell ac annog rhagor o fyfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, os caiff ei ail-ddyrannu neu os caiff y meini prawf eu diwygio.</p> <p>Bydd ysgoloriaethau yn parhau i gael eu cynnig mewn pynciau lle mae yna alw gan gyflogwyr am sgiliau Cymraeg.</p>

9	Dylai'r Coleg barhau i gynnig Ysgoloriaethau Ymchwil oherwydd gwerth y cynllun i faes ymchwil cyfrwng Cymraeg, i ysgolheictod ac i gefnogi darlithwyr y dyfodol.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Bydd y Coleg yn parhau i gynnig ysgoloriaethau ymchwil.
10	Dylai'r Coleg ystyried sut y gall ddatblygu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith trwy gyflwyno gwahanol lefelau o gyrhaeddiad, i'w gwneud yn fwy hygyrch i fwy o fyfyrwyr a phrentisiaid.	Derbyn mewn egwyddor	Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru	Bydd y Coleg mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yn ystyried sut orau i ymateb i'r argymhelliad yma.
11	Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig y Dystysgrif Sgiliau Iaith i fyfyrwyr sydd yn astudio y tu allan i Gymru, er mwyn iddynt gadw cysylltiad â'r iaith Gymraeg ac er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd cyflogadwyedd/astudio pellach yng Nghymru (e.e. profiad gwaith, graddau Meistr).	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Bydd y Coleg yn ystyried posibiliadau i gynnig y dystysgrif Sgiliau Cymraeg i fyfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru.
12	Dylai Llywodraeth Cymru barhau i osod targedau ar sail 5 a 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y Coleg sydd yn adlewyrchu anghenion Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth. Dylai'r Coleg barhau i gofnodi nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau 80	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru	Bydd targedau i'r dyfodol yn seiliedig ar y rhai cyfredol o 5 a 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Coleg yn parhau i gofnodi nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau 80 credyd y flwyddyn.

	credyd y flwyddyn.			
13	Dylai'r Coleg drafod â'r sefydliadau unigol sut y gallant ddyfnhau'r profiadau a gynigir dan y dangosydd 5 credyd er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n cael eu cofnodi dan y mesur yn defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Fel rhan o'i drafodaethau parhaus gyda sefydliadau unigol, bydd y Coleg yn trafod yn rheolaidd sut y gellir cyfoethogi profiad myfyrwyr sy'n astudio 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
14	Dylai Llywodraeth Cymru a'r Coleg ddatblygu dangosydd ychwanegol ar sail y canran o ddisgyblion ysgol sy'n medru'r Gymraeg sydd yn mynd ymlaen i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch neu addysg bellach.	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Bydd Llywodraeth Cymru a'r Coleg yn datblygu dangosydd ychwanegol gyda'r bwriad o'i brofi yn ystod 2018-19.
15	Dylai'r Coleg weithio'n fwy rhagweithiol wrth osod blaenoriaethau ac wrth wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r gefnogaeth a roddir i wahanol bynciau.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Mae'r grantiau pynciol newydd yn seiliedig ar y cynllun academaidd newydd: <i>Tuag at 2020 a thu hwnt</i> , lle mae'r Coleg yn nodi ei fwriad i ddarparu cefnogaeth gan roi ystyriaeth strategol i'r pynciau a'r lefelau ariannu.
16	Wrth ddatblygu'r cynllun grantiau pynciol, dylai'r Coleg: <ul style="list-style-type: none"> weithio mewn ffordd agored a thryloyw, er mwyn sicrhau cefnogaeth y sector a meithrin hyder yn y broses grantiau pynciol; 	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Bydd y Coleg yn cynnal adolygiad o'r cynllun grantiau ar ôl tair blynedd. Gweler ymateb 15.

	<ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod ei gynlluniau yn eglur ac yn cynnwys amserlen glir ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar y sefydliadau; • monitro effaith y cynllun pynciol newydd yn ofalus a gwneud asesiad llawn o effaith a llwyddiant y cynllun ar ôl tair blynedd; • wrth gynnig grantiau pynciol dylai'r Coleg ystyried y nifer o leoliadau sydd yn darparu cyrsiau o fewn yr un pwnc, a lleihau'r nifer os yn briodol i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth, a ; • sicrhau grantiau pynciol ar gyfer pynciau/meysydd lle mae galw gan gyflogwyr am sgiliau dwyieithog. 			
17	Dylai'r sefydliadau unigol wneud pob ymdrech i sicrhau gwerth gorau am arian trwy fuddsoddi cyllideb ac adnoddau eu hunain i gyfrannu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn ychwanegu at yr hyn a gefnogir gan y Coleg.	Derbyn	Prifysgolion a cholegau addysg bellach Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	<p>Mae'r grant pynciau newydd yn seiliedig ar y cynllun academiaidd newydd: <i>Tuag at 2020 a thu hwnt</i>, lle rhoddir cefnogaeth i bynciau unigol ar sail meysydd blaenoriaeth. Lle fo pynciau yn rhai aeddfed, lle fo darpariaeth mewn prifysgolion yn barod a chyda digon o fyfyrwyr i'w gwneud yn hyfyw, disgwylir i'r prifysgolion gynnal y ddarpariaeth heb gefnogaeth ychwanegol.</p> <p>Bydd y grant pynciau newydd yn gymhelliant i brifysgolion gynnal y</p>

				ddarpariaeth bresennol gan ddatblygu darpariaeth newydd mewn partneriaeth â'r Coleg.
18	Dylai'r Coleg ddatblygu a chysoni gweithgareddau craidd y canghennau a diogelu'r hyblygrwydd i ymateb i amodau'r sefydliadau unigol.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Cwblhawyd adolygiad diweddar o ganghennau'r Coleg a bydd y camau gweithredu sy'n berthnasol i'r argymhelliad hwn, yn cael eu gweithredu ar unwaith.
19	Dylai'r Coleg weithio'n agos â'r sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod y canghennau yn cael mewnbwn a dylanwad digonol ar lefel strategol o fewn y sefydliadau.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Fel rhan o'r cytundeb rhwng y Coleg a'r sefydliadau unigol i ariannu'r canghennau lleol, fe fydd hi'n ofynnol i'r gangen gael dylanwad ar lefel strategol yn y sefydliadau. Gweler adran 18
20	Dylid ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector ôl-16.	Derbyn	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Mae'r argymhelliad yn cael ei dderbyn. Gweler adran 21
21	I ddatblygu'r gweithgaredd o fewn y sector ôl-16 dylai'r Coleg: <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu bwrdd cynllunio arbenigol dan adain y Coleg, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r colegau addysg bellach, y sector dysgu seiliedig ar 	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylid ymestyn gweithgareddau'r Coleg i gynnwys y sector ôl-16. Mae angen cynllunio pellach cyn i'r Coleg weithredu'n sylweddol yn y sectorau

	<p>waith a Llywodraeth Cymru, i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector ôl-16;</p> <ul style="list-style-type: none"> • dylai'r bwrdd cynllunio flaenoriaethu tri maes penodol; cefnogi staff presennol y colegau a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn dysgu'n ddwyieithog, datblygu adnoddau dysgu Cyfrwng Cymraeg, a hyrwyddo'r cyfleoedd a'r manteision i ddysgwyr ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, a; • creu uned gynllunio ôl-16 i gefnogi gwaith y Bwrdd Cynllunio ac i ymateb i'r cyfrifoldebau newydd. 			<p>addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, ond bydd gweithgareddau yn cael eu datblygu ar unwaith, lle mae gan y Coleg ddylanwad, arbenigedd a gallu'n bresennol.</p> <p>Bydd y Coleg yn gyfrifol am sefydlu bwrdd cynghori gyda chynrychiolaeth gan randdeiliaid priodol i gynghori ar flaenoriaethau ac ymyriadau i sicrhau bod camau gweithredu i'r dyfodol yn cyd-fynd ag anghenion darparwyr, dysgwyr a chyflogwyr dysgu.</p> <p>Datblygir cynllun gweithredu ddatblygu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Coleg a fydd yn nodi'r camau a'r ymyriadau sydd eu hangen ar unwaith ac yn yr hirdymor i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.</p> <p>Bydd y Coleg yn ystyried sut y gall ei brosesau a'i strwythur mewnol gefnogi'r bwrdd cynghori, datblygu'r cynllun gweithredu a'i rôl mewn dysgu ôl-16 i'r dyfodol.</p>
22	Mewn partneriaeth, dylai Llywodraeth Cymru, y Coleg a rhanddeiliaid eraill ystyried sut i	Derbyn	Llywodraeth Cymru,	Ystyrir yr argymhelliad yma fel rhan o ymrwymiad ehangach i ddatblygu cynllun

	ddatblygu gallu'r sector galwedigaethol i asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn fewnol o fewn sefydliadau, ac yn allanol gan y cyrff dyfarnu.		Coleg Cymraeg Cenedlaethol	gweithredu ar gyfer datblygu dysgu cyfrwng Cymraeg yn y sectorau ôl-16.
23	Dylai'r Coleg ystyried pob cyfle i adolygu costau, yn enwedig costau canolog i sicrhau gwerth am arian.	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Fel rhan o'i gytundeb cyllido blynyddol, bydd yn ofynnol i'r Coleg ystyried a dangos sut y gellir cyflawni gweithgareddau a sicrhau canlyniadau mewn ffordd sy'n darparu'r gwerth gorau am arian.
24	Dylai'r Coleg barhau i gael ei ariannu yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Dylid ailystyried yr opsiynau cyllido o fewn pedair blynedd wrth i swyddogaeth a chyfrifoldebau'r corff newydd ôl-orfodol ddod yn fwy eglur.	Derbyn	Llywodraeth Cymru	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r Coleg yn uniongyrchol. Wrth i'r Comisiwn PCET newydd gael ei sefydlu, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut mae rôl y Coleg yn cyd-fynd â chyfrifoldebau a gweithgareddau'r comisiwn newydd.
25	Dylai'r Coleg drafod gyda Llywodraeth Cymru yr angen am unrhyw gyllid ychwanegol i ymateb i'w gyfrifoldebau newydd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gynllun gweithredu, ond ni welir angen am gynnydd yn y costau canolog yn y tymor byr.	Derbyn	Llywodraeth Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Bydd trafodaethau pellach ynglŷn â chyllid yn dechrau wrth ymateb i weithgareddau yn adran 22.